



PWYLLGOR CYNGOR RHONDDA CYNON TAF CYNGOR

Cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd Dydd Mercher, 10 Ebrill 2019 am 5.00 pm ym Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypany, CF40 2XX.

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol - Cyngor Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cyngorydd S Powderhill (Cadeirydd)

Y Cyngorydd M Tegg	Y Cyngorydd M Powell
Y Cyngorydd H Boggis	Y Cyngorydd J Bonetto
Y Cyngorydd R Bevan	Y Cyngorydd C Willis
Y Cyngorydd A Crimmings	Y Cyngorydd D Williams
Y Cyngorydd G Davies	Y Cyngorydd S Pickering
Y Cyngorydd L De Vet	Y Cyngorydd J Elliott
Y Cyngorydd S Evans	Y Cyngorydd S. Rees-Owen
Y Cyngorydd M Forey	Y Cyngorydd A Fox
Y Cyngorydd M Norris	Y Cyngorydd E Webster
Y Cyngorydd M Webber	Y Cyngorydd M Griffiths
Y Cyngorydd A Roberts	Y Cyngorydd M Weaver
Y Cyngorydd L Walker	Y Cyngorydd G Hopkins
Y Cyngorydd P Howe	Y Cyngorydd K Morgan
Y Cyngorydd R Yeo	Y Cyngorydd J James
Y Cyngorydd P Jarman	Y Cyngorydd G Thomas
Y Cyngorydd A Morgan	Y Cyngorydd M Adams
Y Cyngorydd J Rosser	Y Cyngorydd R Smith
Y Cyngorydd G Stacey	Y Cyngorydd R Lewis
Y Cyngorydd C Leyshon	Y Cyngorydd J Brencher
Y Cyngorydd S Powell	Y Cyngorydd Owen-Jones
Y Cyngorydd S Morgans	Y Cyngorydd D Macey
Y Cyngorydd W Lewis	Y Cyngorydd W Treeby
Y Cyngorydd G Hughes	Y Cyngorydd W Jones
Y Cyngorydd L Jones	Y Cyngorydd L Hooper
Y Cyngorydd J Harries	Y Cyngorydd D Grehan
Y Cyngorydd E George	Y Cyngorydd H Fychan
Y Cyngorydd M Fidler-Jones	Y Cyngorydd J Williams
Y Cyngorydd G Williams	Y Cyngorydd A Davies-Jones
Y Cyngorydd J Davies	Y Cyngorydd J Cullwick
Y Cyngorydd A Cox	Y Cyngorydd A Chapman
Y Cyngorydd G Caple	

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr
Mr B Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Mr G Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr N Wheeler, Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen
Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr R Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud ynglŷn â'r agenda:

Eitem 5 ar yr Agenda – Cwestiynau Cyhoeddus

- Gwnaeth Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol M. Webber ddatganiad o fuddiant personol ynglŷn â'r mater – "Rwyf ar Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Heol y Celyn ond nid yw fy niddordeb yn un sy'n rhagfarnu oherwydd yr eithriad ym mharagraff 12(2) (a)(iii) o'r Cod Ymddygiad i Aelodau."
- Gwnaeth Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol M. Fidler Jones ddatganiad o fuddiant personol ynglŷn â'r mater – "Rwyf ar Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Heol y Celyn ond nid yw fy niddordeb yn un sy'n rhagfarnu oherwydd yr eithriad ym mharagraff 12(2) (a)(iii) o'r Cod Ymddygiad i Aelodau."
- Gwnaeth Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol H. Fychan ddatganiad o fuddiant personol ynglŷn â'r mater – "Rwyf ar Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Gymraeg Evan James ond nid yw fy niddordeb yn un sy'n rhagfarnu oherwydd yr eithriad ym mharagraff 12(2) (a)(iii) o'r Cod Ymddygiad i Aelodau."
- Gwnaeth Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol R. Lewis ddatganiad o fuddiant personol ynglŷn â'r mater – "Rwyf ar Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Gymraeg Abercynon ond nid yw fy niddordeb yn un sy'n rhagfarnu oherwydd yr eithriad ym mharagraff 12(2) (a)(iii) o'r Cod Ymddygiad i Aelodau."

Eitem 8 ar yr Agenda – Rhybudd o Gynnig (B)

- Gwnaeth Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol R. Yeo ddatganiad o fuddiant personol ynglŷn â'r mater – "Mae fy ngwraig yn gweithio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, yn Ysbyty'r Tywysog Siarl."
- Gwnaeth Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol M. Forey ddatganiad o fuddiant personol ynglŷn â'r mater a gadawodd y cyfarfod pan oedd y mater yn destun pleidlais – "Fi oedd y cynrychiolydd yr Aelodau Etholedig ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf pan gafodd y rhaglen ar gyfer De Cymru ei hystyried, gan gynnwys y penderfyniad ynglŷn â gwasanaethau mamolaeth dan arweiniad ymgynghorydd."
- Gwnaeth Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol R. Smith ddatganiad o fuddiant personol ynglŷn â'r mater a ni chymerodd ran yn y drafodaeth na'r bleidlais – "Fi yw cynrychiolydd yr Aelodau Etholedig ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf."
- Gwnaeth Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol J. Elliot ddatganiad o fuddiant personol ynglŷn â'r mater – "Mae fy chwaer yng nghyfraith yn gweithio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf."
- Gwnaeth Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol K. Morgan ddatganiad o fuddiant personol: "Rwy'n gweithio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf."
- Gwnaeth Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol S. Evans ddatganiad o fuddiant personol: "Rwy'n gweithio i'r GIG."
- Gwnaeth Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol G. Williams ddatganiad o fuddiant personol: "Mae fy ngwraig yn gweithio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf."

137 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol S. A. Bradwick, A. Calvert, M. Diamond, S. M. Evans, G. Holmes, G. Jones, W. Owen, S. Rees, R. K. Turner, a T. Williams.

138 CYHOEDDIADAU

- Rhoddodd y Maer wybod i'r Aelodau fod Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol Bradwick yn yr ysbyty ar hyn o bryd a bydd dymuniadau da'r Pwyllgor yn cael eu hanfon at yr Aelod.
- Manteisiodd y Maer ar y cyfle i longyfarch Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Davies-Jones ar enedigaeth ei babi, Sullivan.
- Nododd y Maer ynghyd â Chynghorydd y Fwrdeistref Sirol P. Jarman, eu cydymdeimlad â theulu cyn-Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Gregory. Talodd y Cynghorydd Jarman deyrnged hefyd i'r cyn-Gynghorydd am ei waith dros ei flynyddoedd lawer fel Cynghorydd.
- Cymerodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol L. De Vet y cyfle i longyfarch ysgol Aberdâr ar gyrraedd rownd derfynol cystadleuaeth rygbi ysgolion Cymru, a fyddai'n cael ei chynnal ar 1 Mai yn Stadiwm y Principality, Caerdydd. Ychwanegodd yr Aelod fod hwn yn newyddion gwych i'r tîm, y disgyblion a'r teuluoedd dan sylw a dymunodd bob llwyddiant i'r tîm yn y rownd derfynol.
- Rhoddodd y Maer wybod i Aelodau am fathodynau pin a blwch casglu arian i Ganolfan Ganser Felindre a oedd yn mynd o gwmpas y Siambr. Rhoddodd y Maer wybod am y gwaith casglu arian y mae Mr Wayne Griffiths yn ei wneud ar gyfer 'The Rhian Griffiths Forget Me Not Fund', a sefydlwyd er cof am ei ferch fu farw o ganser. Ychwanegodd fod Mr Griffiths wedi codi dros £400,000 tuag at Felindre hyd yma. Ychwanegodd y Maer y byddai unrhyw roddion yn mynd tuag at yr achos teilwng yma.
- Cymerodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol D. Owen Jones y cyfle i ddiolch i'r Maer am y croeso cynnes yr oedd ef a grwpiau o'i drigolion wedi ei dderbyn ar ôl ymweliad diweddar â'r parlwr. Siaradodd yr Aelod am yr ymweliad calonogol a oedd wedi'u hysbrydoli, a diolchodd i'r Maer am ei letygarwch caredig.
- Cyfeiriodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol D. Grehan yr Aelodau at gylchlythyr 'Parc Sglefrio Tonyrefail' a oedd yn cael ei ddisbarthu ar hyn o bryd ar draws ardal Tonyrefail. Rhoddodd wybod am yr arian a godwyd ers i ymgyrch y parc sglefrio ddechrau a chyflwyno'r ceisiadau mewn perthynas â chyllid y loteri. Dywedodd wrth yr Aelodau am 'Ras Hwyaidd' a oedd wedi'i chynllunio i godi arian pellach tuag at yr ymgyrch a gofynnodd i'r Aelodau gyfrannu'n garedig at yr ymgyrch trwy brynu hwyaden.
- Manteisiodd y Maer ar y cyfle i ddiolch i aelodau Grŵp Plaid Cymru am eu cyfraniad caredig tuag at Elusen y Maer.

139 COFNODION

PENDERFYNODD y Cyngor gymeradwyo cofnodion 27 Mawrth, 2019 yn adlewyrchiad cywir o'r cyfarfod yn amodol ar ddiwygio Cofnod 126 (pwynt bwled olaf ond un) i ddweud 'Megan Sass'.

140 DATGANIADAU

Datganiad gan Arweinydd y Cyngor mewn perthynas â Phrentisiaethau a'r Rhaglen i Raddedigion.

Dywedodd yr Arweinydd fod y rownd nesaf o geisiadau am brentisiaethau a swyddi i raddedigion ar agor, gyda 24 prentisiaeth a 9 swydd i raddedigion ar gael. Dywedodd fod y Cyngor wedi derbyn 81 o brentisiaethau a 31 o swyddi i raddedigion ers yr etholiad diwethaf, ac roedd y Cyngor ar y trywydd iawn i ddarparu 150 o leoedd dros y tymor 5 mlynedd. Gofynnodd yr Arweinydd i'r Aelodau rannu manylion y ceisiadau mor eang â phosibl i hyrwyddo'r cyfleoedd sydd ar gael ymhellach. Cafodd yr aelodau wybod bod modd gwneud cais ar wefan y Cyngor.

Ychwanegodd yr Arweinydd fod 100% o Brentisiaid a Graddedigion y Cyngor wedi cyflawni eu fframwaith cymhwyster llawn rhwng 2012 a 2016, gyda 92% yn sicrhau cyflogaeth ar ôl i'w cynllun ddod i ben, gyda dros 80% o'r rhain yn sicrhau cyflogaeth yn y Cyngor, tra bod eraill wedi mynd ymlaen i gyflawni dysgu pellach.

Datganiad gan Ddirprwy Arweinydd y Cyngor mewn perthynas â gŵyl 'The Big Weekend'.

Roedd y Dirprwy Arweinydd yn falch o gadarnhau bod un o brif gwmnïau digwyddiadau y DU yn cynnal 'Ponty's Big Weekend' yr haf yma.

Ychwanegodd fod Orchard Live wedi cyhoeddi yn ddiweddar mai Ocean Colour Scene, sydd wedi gwerthu miliynau o recordiau, fyddai'r prif berfformwyr eleni. Bydd yr achlysur yn cael ei gynnal ddydd Sadwrn, 17 Awst ym Mharc Coffa Ynysangharad. Roedd hi hefyd yn falch o gadarnhau y byddai'r Bluetones a Goldie Lookin' Chain yn perfformio yn y digwyddiad.

Parhaodd y Dirprwy Arweinydd drwy roi gwybod bod y Cyngor yn cefnogi Orchard wrth gyflwyno'r achlysur, a'r gobaith oedd mai'r 'Big Weekend' fyddai'r llwyddiant cyntaf ymhlith nifer o achlysuron llawn cyffro sydd ar y gweill gyda'r Cyngor dros y blynnyddoedd nesaf.

Gofynnwyd yn garedig i'r holl Gynghorwyr hyrwyddo'r digwyddiad yn eu cymunedau a rhoddwyd gwybod i'r Aelodau y byddai tocynnau ar gael o ddydd Gwener, 12 Ebrill am 9am a byddai modd eu prynu ar-lein ar Ticketmaster, yn un o'r theatrau, a lleoliad addas (i'w gadarnhau) ym Mhontypridd.

Datganiad gan yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Dysgu Gydol Oes mewn perthynas â'r Rhaglen Gwella Gwyliau'r Ysgol (SHEP)

Roedd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Dysgu Gydol Oes yn falch o gadarnhau y byddai Rhaglen Gwella Gwyliau'r Ysgol (SHEP) yn cael ei hymestyn unwaith eto yn 2019. Dywedodd yr Aelod fod y rhaglen yn ceisio cael gwared ar y stigma sy'n gysylltiedig â hawlio Prydau Ysgol am Ddim drwy wahodd pob plentyn 5-11 oed i gymryd rhan yn y peilot. Mae'r cynllun nid yn unig yn darparu brechwast a chinio i'r disgyblion sy'n cymryd rhan, ond hefyd yn caniatáu iddyn nhw gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon ac addysg

ac i gryfhau grwpiau cyfeillgarwch. Cafodd yr Aelodau wybod mai dim ond tair ysgol oedd yn rhan o'r rhaglen yn y flwyddyn gyntaf a dywedodd fod y rhaglen bellach wedi'i hymestyn ac yn cynnwys ysgolion Cymraeg a Saesneg, ac ysgolion ffydd. Ychwanegwyd y byddai 12 sesiwn yn cael eu cynnal drwy gydol tair wythnos o wyliau'r haf, gan ychwanegu bod y gweithgareddau heb eu cadarnhau eto. Serch hynny, rhoddodd wybod y byddai rhieni yn ymwneud â rhai o'r gweithgareddau i hyrwyddo bwyta a byw'n iach gartref. Daeth yr Aelod o'r Cabinet a'i datganiad i ben trwy ddweud y byddai seremoni raddio ar gyfer y plant ar ôl i'r rhaglen ddod i ben.

Datganiad gan yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd, Hamdden, a Gwasanaethau Treftadaeth:

Cadarnhaodd yr Aelod o'r Cabinet y byddai Lido Cenedlaethol Cymru, Lido Ponty, yn ail-agor ar gyfer 2019 ddydd Sadwrn, 13 Ebrill, mewn pryd ar gyfer Gwyliau'r Pasg, gan ychwanegu bod y prisiau unwaith eto wedi'u rhewi, fel bod modd i bob plentyn dan 16 oed nofio am ddim.

Dywedwyd wrth yr aelodau bod y Lido, ers iddi agor yn 2015, wedi croesawu dros 266,000 o bobl o bob cwr o'r byd, a bod y pedwerydd tymor y llynedd wedi torri record gyda 91,000 o ymwelwyr yn dod drwy'r drysau.

Roedd buddsoddiad yng nghyrchfannau twristiaid y Cyngor wedi talu ar ei ganfed gyda Thaith Pyllau Glo Cymru ym Mharc Treftadaeth Cwm Rhondda yn profi ei flwyddyn fwyaf llwyddiannus hyd yma ar ôl y buddsoddiad o £600,000 gyda chynnydd o dros 38% yn nifer yr ymwelwyr a oedd wedi ymweld â'r safle.

Rhoddodd yr Aelod o'r Cabinet wybod i Aelodau fod y Cyngor ar hyn o bryd yn gweithio ar ddau gais am arian o dan raglen Tasglu'r Cymoedd: Pwrth Darganfod y Cymoedd. Byddai'r rhain yn cyflawni gwelliannau a fyddai'n trawsnewid Parc Gwledig Cwm Dâr a Pharc Coffa Ynysangharad. Ychwanegodd fod y Cyngor hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ailagor Twneli'r Rhondda ac Abernant i wella cynnig antur weithredol yn yr awyr agored. Y gobaith yw byddai hyn yn cyd-fynd â datblygiad Zip World, a fydd yn destun caniatâd cynllunio'n fuan ar ôl i'r Cyngor fod yn trafod gyda'r cwmni ac Arweinydd y Cyngor sydd wedi bod yn gweithio'n agos ar hyn am y 12 mis diwethaf.

141 CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

1. Cwestiwn a dderbyniwyd gan Ms L Chinnock-Davies i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymuned i Oedolion a'r Gymraeg, Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol G. Hopkins:

"A wnaiff yr Aelod o'r Cabinet sy'n gyfrifol am faterion y Gymraeg ddatganiad ynglŷn â sut mae'r Cyngor yn helpu plant yng ngogledd Pontypridd i gael addysg cyfrwng Cymraeg yn eu cymuned?"

Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. Hopkins - Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymuned i Oedolion a'r Gymraeg

Diolchodd yr Aelod o'r Cabinet i Ms Chinnock-Davies am ei chwestiwn a dywedodd fod y Cyngor, ers 2012, wedi darparu capasiti ychwanegol mewn ysgolion ledled y Fwrdeistref Sirol ac roedd hefyd wedi ymrwymo i gynyddu ansawdd ac argaeledd darpariaeth cyfrwng Cymraeg y

blynyddoedd cynnar. Dywedodd fod cyfleusterau gwell wedi'u cynllunio ar gyfer Ysgol Gynradd Gymraeg Evan James ac Ysgol Gynradd Gymraeg Abercynon a darpariaeth ychwanegol ar safle Heol y Celyn pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo ynghyd â 90 o leoedd ychwanegol i ddisgyblion.

Parhaodd yr Aelod o'r Cabinet drwy roi gwybod i Ms Chinnock-Davies fod gan y Cyngor hanes balch o gynllunio ar gyfer lleoedd ysgol, gan sicrhau bod digon o leoedd ysgol i fodloni anghenion lleol a dewis rhieni ar gyfer darpariaeth cyfrwng Gymraeg. Ym mhob un o ysgolion cyfrwng Gymraeg y Cyngor ar draws y Sir, roedd modd i rieni ddewis pa ysgol mae eu plant yn ei mynychu. Ychwanegodd fod capasiti yng ngogledd Pontypridd ar hyn o bryd a pholisi presennol y Cyngor yw bod disgyblion sy'n mynychu'r Ysgol Cyfrwng Gymraeg agosaf yn derbyn cludiant am ddim yn unol â pholisi cytunedig y Cyngor ar bellter cerdded a llwybrau diogel.

Cwestiwn atodol gan Ms Chinnock-Davies:

Cyfeiriodd Ms Chinnock-Davies at gyfarfod y Cabinet ar y 21 Mawrth a holodd a oedd yr Aelod yn dal i dderbyn ei fod yn iawn i blant gael mynediad i addysg Gymraeg y tu allan i'w Cymuned. Cyfeiriodd Ms Chinnock-Davies at fwriad Llywodraeth Cymru i gynyddu darpariaeth cyfrwng Gymraeg gan ychwanegu bod y penderfyniad diweddar a wnaed gan y Cabinet wedi creu rhwystrau i'r plant, y rhieni a'r teuluoedd. Holodd a oedd yr aelod yn meddwl bod symud darpariaeth addysg Gymraeg o Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton, Glyn-coch ac Ynys-y-bwl yn rhwystro teuluoedd rhag cael mynediad at addysg cyfrwng Gymraeg ac yn atal cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer twf. Daeth y siaradwr cyhoeddus a'i sylwadau i ben drwy ychwanegu bod y penderfyniad yn golygu bod addysg Gymraeg ar gael i'r breintiedig yn unig, ac nid i bawb.

Ymateb gan yr Aelod o'r Cabinet G. Hopkins:

Cyfeiriodd yr Aelod o'r Cabinet at y trafodaethau manwl a hirfaith a gynhaliwyd yng nghyfarfod y Cabinet a'r cyfarfod Galw i Mewn diweddar. Ychwanegodd fod y penderfyniad yn amodol ar y cyfnod proses statudol a dywedodd nad oedd modd iddo roi sylwadau pellach ar y mater.

2. **Cwestiwn a dderbyniwyd gan Ms S. Herniman i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Rosser** – Gan nad oedd yr Aelod o'r cyhoedd yn bresennol yn y cyfarfod byddai ymateb ysgrifenedig i'r cwestiwn yn cael ei ddarparu.

3. **Cwestiwn gan Mrs C. M. Chinnock i Ddirprwy Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Webber:**

"Oes modd i'r Aelod o'r Cabinet Maureen Webber, egluro a fu gwrthwynebiad i'r cynigion presennol ar gyfer safle Heol y Celyn gan drigolion sy'n poeni am y cynnydd yn nifer y cerbydau a fydd yn teithio i

lawr y stryd gul, sef Holly Street, lle mae'r ysgol, ac o amgylch ardal Rhydfelen?"

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol M. Webber:

Dywedodd yr Aelod fod rhai pryderon wedi'u codi drwy ymholiadau a chwestiynau, ond ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau uniongyrchol. Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet ei bod hi'n byw gyferbyn â'r ysgol ac felly mae hi'n teithio ar y ffyrdd dan sylw yn gyson. Daeth yr Aelod o'r Cabinet a'i sylwadau i ben drwy ailadrodd na dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau ffurfiol.

Cwestiwn atodol gan Mrs C. M. Chinnock:

Dywedodd Mrs Chinnock mai un o'r dadleuon gan y Cabinet i gyfiawnhau'r penderfyniad oedd mewn perthynas â'r union filltiroedd i ac o'r ysgol, a fyddai'n llai. Fodd bynnag, ychwanegodd, pe bai'r un rheol yn berthnasol i Heol y Celyn ag Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton, sef bod yn rhaid i'r bus ollwng a chasglu ar yr un ochr o'r ffordd â safle'r ysgol, yna byddai'r siwrnai yn hwy ac yn amodol ar draffig mwy prysur. Gofynnodd Mrs Chinnock a fyddai'r tagfeydd ychwanegol hyn yn broblem a gofynnodd hefyd am gadarnhad y byddai'r llwybr yn hwy.

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol M. Webber:

Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet y byddai asesiad effaith traffig yn cael ei gynnal gydag unrhyw gynigion ysgol ac y byddai'n mynd i'r afael ag unrhyw bryderon sy'n codi.

142 CWESTIYNAU GAN Y CYNGHORWYR

1. Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol J. Harries i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd, Hamdden a Gwasanaethau Treftadaeth (Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Crimmings):

"Sut mae'r Cyngor yn ymateb i achosion o wastraff sy wedi'i adael yn anghyfreithlon ar draws y Fwrdeistref Sirol?"

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Crimmings:

Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet fod y cyngor yn parhau i fynd i'r afael ag unrhyw achosion o dipio anghyfreithlon gyda Swyddog Tipio Anghyfreithlon neilltuol sy'n chwilio am unrhyw dystiolaeth yn y gwastraff sydd wedi'i dipio a allai arwain at ddarganfod pwy sy'n gyfrifol. Y gobaith wedyn yw cael euogfarn yn eu herbyn. Parhaodd drwy ychwanegu bod nifer o achosion lle nad oes modd dod o hyd i dystiolaeth yn anffodus. Mae pob digwyddiad lle mae dystiolaeth yn bresennol bellach yn cael ei ymchwilio'n llawn ac, os yw'r dystiolaeth yn ddigonol, bydd troseddwr yn cael eu herlyn. Er mwyn dangos dull llym y Cyngor o fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon, dywedodd yr Aelod o'r Cabinet fod y taliadau Hysbysiad Cosb Benodedig wedi cael eu cynyddu i £400 yn ddiweddar ar gyfer troseddau tipio anghyfreithlon ar raddfa fach.

Cwestiwn ategol gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Harries:

Gofynnodd yr Aelod a oedd modd i'r Aelod o'r Cabinet rhoi manylion am nifer y troseddwyr y mae'r Cyngor wedi cymryd camau yn eu herbyn yn ystod blwyddyn ariannol 2018/19 ar draws y Fwrdeistref Sirol.

Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Crimmings:

Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet nad oedd ganddi'r wybodaeth ar hyn o bryd ond y byddai'n ymateb yn ysgrifenedig. Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet fod 2 unigolyn o Gwm Rhondda wedi pledio'n euog yn ddiweddar i droseddau tipio anghyfreithlon a'u bod ar hyn o bryd yn aros i gael eu dedfrydu gan Lys y Goron.

2

Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol D. Owen-Jones i Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

"A oes modd i'r Arweinydd amlinellu'r camau nesaf ar gyfer cynllun deuoli'r A4119 rhwng Ynysmaerdy a Choed-elái?"

Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

Dywedodd yr Arweinydd fod deuoli'r A4119 (sy'n cael ei galw'n "Stinkpot Hill" yn lleol) rhwng Ynysmaerdy a Choed-elái ar ddiwedd y cam dylunio rhagarweiniol. Dechreuodd arolygon ecolegol ar y safle yn 2018 a byddan nhw'n parhau yn 2019 i bennu unrhyw effeithiau ar fywyd gwyllt a phlanhigion o ganlyniad i'r prosiect arfaethedig. Ychwanegodd fod y dyluniad a'r modelu rhagarweiniol wedi dangos manteision sylweddol o symud cylchfan yr Orsaf Dân ac mae dylunio manwl wedi dechrau ar gyfer mynedfa newydd i'r Orsaf Dân.

Parhaodd yr Arweinydd trwy fanylu ar y camau nesaf ar gyfer y cynllun deuoli:

- Dyluniad manwl ar gyfer y fynedfa'r i'r Orsaf Dân a deuoli'r A4119 ei hun
- Prynu tir trydydd parti drwy negodi neu drwy Orchymyn Prynu Gorfodol (CPO)
- Cytundeb gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn ag unrhyw waith lliniaru sydd ei angen ar gyfer unrhyw fywyd gwyllt neu blanhigion pwysig sydd wedi'u nodi
- Cymeradwyaeth bwrdd Gwasanaeth Tân De Cymru ar gyfer y fynedfa newydd i'r Orsaf Dân (cytundeb mewn egwyddor eisoos)
- Cyflwyno cais cynllunio ar gyfer y fynedfa newydd i'r Orsaf Dân. Doedd y gwaith deuoli ddim yn amodol ar ganiatâd cynllunio gan ei fod yn ddatblygiad a ganiateir.
- Ymarfer tendro ar gyfer y fynedfa i'r Orsaf Dân ac ar gyfer deuoli'r A4119 ar wahân
- Adeiladu'r fynedfa i'r Orsaf Dân a'r A4119

Cwestiwn ategol gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol D. Owen-Jones:

Holodd yr Aelod a oedd yna unrhyw bosibilrwydd o gael lôn drylifo o i'r heol ddeuol o bentref Coed-elái i'r chwith o'r gylchfan gan fod digon o le

yno ar gyfer datblygiad o'r math yma. Ychwanegodd fod defnyddwyr o bentrefi Coed-elái, Nant Melyn a Thretomas yn ofni y byddai cyffordd yn y man yma yn creu problemau ychwanegol wrth geisio cael mynediad i'r rhwydwaith prysur yma. Ar hyn o bryd, mae'r traffig yn ciwio ymhell dros 500m i mewn i'r pentref yn ystod yr adegau prysuraf, ac mae hyn yn rhwystro pobl leol rhag symud. Mae'r amser sydd raid aros er mwyn defnyddio Lonydd Smeilog ac i fyny tuag at Gwm Rhondda yn rhwystredig ac yn annerbyniol. Gofynnodd yr Aelod a oedd y cynlluniau wedi cael eu gwirio a'u profi er mwyn osgoi a pheidio â throsglwyddo'r sefyllfa bresennol i Gylchfan Coed-elái, sef traffig yn teithio'n gyflym i lôn sengl i gyfeiriad Tonyrefail, y Gilfach-goch a Chwm Rhondda?

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

Dywedodd yr Arweinydd y byddai asesiad ehangach o'r effaith ar draffig yn cael ei wneud gan ychwanegu bod potensial ar gyfer lôn drylifo ar yr A4119. Cyfeiriodd at y traffig ar y gyffordd yng Nghoed-elái gan ddweud na welodd unrhyw effeithiau negyddol. Cyfeiriodd yr Arweinydd hefyd at y camau adolygu dylunio y byddai angen eu cymryd a'r asesiadau diogelwch ar y ffyrdd i asesu unrhyw effeithiau andwyol.

3 Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol D. Grehan i Arweinydd y Cyngor, Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

“Oes modd i'r Aelod o'r Cabinet priodol ddweud wrthyf am yr ymdrechion sy'n cael eu gwneud i gynyddu'r lleoedd parcio yn Nhonyrefail?”

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

Dywedodd yr Arweinydd nad oedd unrhyw gynlluniau yn yr achos yma i gynyddu'r parcio, er bod nifer o adolygiadau wedi cael eu cynnal o'r blaen gan ystyried parcio ar safle'r hen ysgol, ond roedd rhai wedi awgrymu bod hyn yn rhy bell i ffwrdd o ganol y pentref. Dywedodd yr Arweinydd hefyd fod datblygiad tai cymdeithasol posibl yn cael ei ddatblygu ar y tir hwn sydd wedi'i awgrymu ar gyfer parcio o'r blaen. Daeth yr Arweinydd i ben trwy ddweud nad oedd gan y Cyngor unrhyw dir ar hyn o bryd i ddatblygu maes parcio arno.

Cwestiwn ategol gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol D. Grehan

Dywedodd y Cyngorydd Grehan nad oedd y broblem gyda pharcio yn newydd i'r pentref a bod yr ymdrechion i ddod o hyd i dir yn agos at y pentref wedi bod yn digwydd ers blynyddoedd. Cytunodd yr Aelod gyda'r Arweinydd fod y Cyngor wedi colli cyfle da ar y darn o dir ar safle'r hen ysgol, gan ychwanegu y byddai'r lleoliad yma wedi bod yn lleoliad perffaith ar gyfer parcio ceir ychwanegol. Holodd yr Aelod oni fyddai datblygu rhagor o dai ar y lleoliad a grybwyllwyd o'r blaen yn gwaethygu'r sefyllfa parcio, yn enwedig gyda'r broblem gyda pharcio oherwydd y theatr. Gofynnodd y Cyngorydd Grehan a allai'r Cyngor weithio gyda'r datblygwr i weld a fyddai modd darparu parcio ar gyfer ei drigolion a'r gymuned a gofynnodd i'r Arweinydd a fyddai'n fodlon cwrdd ag ef yn Nhonyrefail i weld y problemau gyda pharcio yn rhai o'r strydoedd lle mae trafferth.

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

Nododd yr Arweinydd gan fod y datblygiad yn destun cais cynllunio byddai'n ystyried ei sylwadau. Ychwanegodd yr Arweinydd fod y Cyngor eisoes wedi ystyried y safle ar gyfer parcio mewn perthynas â'r Stryd Fawr, ond roedd eraill o'r farn bod y safle yma yn rhy bell i ddarparu parcio sy'n hawdd cael mynediad ato. Ychwanegodd yr Arweinydd petai'r opsiwn yn cael ei gyflwyno i'r datblygwyr mewn perthynas â pharcio cymunedol yna gallai hyn olygu bod y safle yn anhyfyw i'r datblygwr. Daeth yr Arweinydd a'i sylwadau i ben trwy ddweud pe bai tir priodol ar gael a oedd yn ymarferol ar gyfer y pentref ac yn fforddiadwy, byddai'r Cyngor yn adolygu'r mater eto gan ychwanegu bod hwn yn fater hirsefydlog.

4 Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol G. Hughes i Arweinydd y Cyngor, Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

"Pa gamau y mae'r Cyngor yn eu cymryd i wella'r cyfleoedd Teithio Llesol ar draws y Fwrdeistref Sirol?"

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

Dywedodd yr Arweinydd fod y Cyngor wedi cynhyrchu Map Rhwydwaith Integredig yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos yn ystod haf 2017. Ychwanegodd fod y map wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2018 a bod y Cyngor bellach yn datblygu nifer o gynlluniau penodol ar draws y Fwrdeistref Sirol. Ychwanegodd yr Arweinydd fod y Cyngor yn aros am gyhoeddiadau ffurfiol er mwyn gwybod a yw nifer o geisiadau'r Cyngor wedi bod yn llwyddiannus, gan ychwanegu dylai'r Cyngor gael cadarnhad o fewn yr wythnos nesaf.

Doedd dim cwestiwn ategol gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol G. Hughes.

5 Cafodd yr Aelodau wybod bod ymddiheuriadau am absenoldeb wedi'u derbyn gan y Cyngorydd T. Williams oherwydd salwch a chadarnhaodd y Cadeirydd na fyddai'r cwestiwn yn cael ei gyflwyno i'r Aelod o'r Cabinet.

143 PENDERFYNIADAU BRYD O DAN SWYDDOGAETHAU GWEITHREDOL

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu drosolwg i'r Aelodau o'r adroddiad a oedd yn rhoi manylion y penderfyniadau gweithredol brys yn ystod y cyfnod Ionawr – Mawrth, 2019. Cafodd yr Aelodau wybod nad oedd unrhyw benderfyniadau brys wedi cael eu gwneud gan Bwyllgor y Cabinet na thrwy benderfyniadau Dirprwyedig Swyddog yn ystod y cyfnod yma.

PENDERFYNODD Aelodau nodi cynnwys yr adroddiad.

144 RHYBUDD O GYNNIG

- (a) Derbyniwyd y Rhybudd o Gynnig canlynol yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol P. Jarman, G. Davies, J. Williams, A. Cox, K. Morgan, H. Fychan, D. Grehan, E. Stephens, L. Jones, J. Davies, J. Cullwick, M. Weaver, S. Rees-Owen, E. Webster, A. Chapman, S. M. Evans a D. Macey yn unol â Rheol 10.1 (b) Gweithdrefn y Cyngor:-

Bod strwythur Pwyllgorau'r Cyngor yn cael ei newid yn y dyfodol er mwyn creu darpariaeth ar gyfer Pwyllgor Deisebau, a bod darpariaeth hefyd i gynyddu nifer y cwestiynau gan yr Aelodau ym mhob Cyfarfod Cyngor Llawn o bump i wyth.

Os caiff hyn ei gytuno, bydd gofyn i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a Chyfansoddiad gyfarfod ar frys i ystyried argymhell y newidiadau hyn i Gyfansoddiad y Cyngor yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynnyddol y Cyngor ym mis Mai 2019.

Yn dilyn trafodaeth hir, **PENDERFYNWYD** peidio â mabwysiadu'r Rhybudd o Gynnig.

(D.S. – Gofynnodd aelodau Grŵp Plaid Cymru, Grŵp y Ceidwadwyr ac aelodau'r Grŵp Alliance a oedd yn bresennol yn y cyfarfod am nodi eu bod wedi pleidleisio o blaid y Rhybudd o Gynnig aflwyddiannus.)

- (b) Derbyniwyd y Rhybudd o Gynnig canlynol yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol L. M. Adams, R. Yeo, D. R. Bevan, H. Boggis, J. Bonetto, S. Bradwick, J. Brencher, A. Calvert, G. Caple, A. Crimmings, A. Davies-Jones, L. De Vet, J. Elliott, S. Evans, M. Fidler Jones, A. Fox, E. George, M. Griffiths, J. Harries, G. Hughes, G. Holmes, G. Hopkins, G. Jones, R. Lewis, W. Lewis, C. Leyshon, A. Morgan, S. Morgans, M. A. Norris, D. Owen-Jones, S. Pickering, S. M. Powell, S. Rees, A. Roberts, J. Rosser, G. Stacey, M. Tegg, G. Thomas, W. Treeby, R. K. Turner, M. Webber, D. H. Williams, T. Williams a C. J. Willis gan y Swyddog Priodol yn unol â Rheol 10.1(b), Rheolau Gweithredu'r Cyngor:-

Mae'r Cyngor yn awyddus i fynegi ei bryder ynglŷn â'r effaith ymarferol y mae'r newidiadau i'r gwasanaethau mamolaeth yng Nghwm Taf yn ei chael ar drigolion Rhondda Cynon Taf.

Mae'r Cyngor yn galw ar y Bwrdd Iechyd Lleol i adolygu'r trefniadau newydd yng Nghwm Taf er mwyn ystyried yr anawsterau sydd ynghlwm â'r drefn yma ar gyfer ein trigolion.

Yn rhan o'r adolygiad yma, gofynnwn i'r Bwrdd Iechyd Lleol ystyried y datblygiad sylweddol o ran tai sydd eisoes wedi digwydd ers i'r penderfyniad yma gael ei wneud yn 2013. Yn ogystal â hynny, dylai'r adolygiad ystyried cynigion am godi tai yn y dyfodol, yn arbennig yn ardal ddeheuol y Fwrdeistref Sirol, yn ogystal â'r gogledd ac ardal Pen-y-bont ar Ogwr.

Mae'r Cyngor o'r farn y bydd y datblygiadau yma'n rhoi rhagor o bwysau ar y drefn newydd yma ac, o ganlyniad i hynny, yn arwain at ragor o

broblemau ymarferol i drigolion Rhondda Cynon Taf sydd angen cymorth gan wasanaethau mamolaeth a phediatrig, yn arbennig mewn argyfwng.

Yn y cyfarfod, cyhoeddodd y Maer, yn unol â Rheol 10.4.1 o Weithdrefn y Cyngor, fod y diwygiad canlynol i'r Rhybudd o Gynnig wedi'i dderbyn gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol P. Jarman, G. Davies, S. Rees-Owen, M. Weaver, J. Williams, A. Cox, J. Davies, J. Cullwick, L. Jones, E. Stephens, H. Fychan, D. Grehan, K. Morgan, E. Webster, D. Macey, A. Chapman a S. M. Evans:

Mae'r Cyngor yn awyddus i fynegi ei bryder ynglŷn â'r effaith ymarferol y mae'r newidiadau i'r gwasanaethau mamolaeth yng Nghwm Taf yn ei chael ar drigolion Rhondda Cynon Taf.

Mae'r Cyngor yn galw ar y Bwrdd Iechyd Lleol i adolygu'r trefniadau newydd yng Nghwm Taf er mwyn ystyried yr anawsterau sydd ynghlwm â'r drefn yma ar gyfer ein trigolion.

Mae'r Cyngor yma hefyd yn galw ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Vaughan Gething AC, i ystyried pryderon y Cyngor yma wrth ystyried canfyddiadau adolygiad Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr a Choleg Brenhinol y Bydwagedd sydd i fod yn adrodd yn ôl i'r Gweinidog yn fuan.

Yn rhan o'r adolygiad yma, gofynnwn i'r Bwrdd Iechyd Lleol ystyried y datblygiad sylweddol o ran tai sydd eisoes wedi digwydd ers i'r penderfyniad yma gael ei wneud yn 2013. Yn ogystal â hynny, dylai'r adolygiad ystyried cynigion am godi tai yn y dyfodol, yn arbennig yn ardal ddeheuol y Fwrdeistref Sirol, yn ogystal â'r gogledd ac ardal Pen-y-bont ar Ogwr.

Mae'r Cyngor o'r farn y bydd y datblygiadau yma'n rhoi rhagor o bwysau ar y drefn newydd yma ac, o ganlyniad i hynny, yn arwain at ragor o broblemau ymarferol i drigolion Rhondda Cynon Taf sydd angen cymorth gan wasanaethau mamolaeth a phediatrig, yn arbennig mewn argyfwng. O ganlyniad, mae'r Cyngor yma hefyd yn galw ar Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ystyried y goblygiadau ar gyfer lles y cymunedau y mae hyn yn effeithio arny'n nhw. Ni fyddai wedi bod modd mesur canlyniadau'r newidiadau pan gafodd y penderfyniad gwreiddiol ar gyfer y gwasanaeth yma ei wneud gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ar y pryd, chwe blynedd cyn rhoi trefniadau'r gwasanaeth newydd ar waith.

Yn dilyn trafodaeth faith ar y mater yma, cymerwyd y bleidlais mewn perthynas â'r diwygiad i'r Rhybudd o Gynnig a **PHENDERFYNWYD** peidio â'i mabwysiadu.

Yn dilyn trafodaeth hir, **PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r Rhybudd o Gynnig gwreiddiol.

D.S.

- Gofynnodd aelodau Grŵp Plaid Cymru, Grŵp y Ceidwadwyr ac aelodau'r Grŵp Alliance a oedd yn bresennol yn y cyfarfod am nodi eu bod wedi pleidleisio o blaid y diwygiad aflwyddiannus i'r Rhybudd o Gynnig.

- Gofynnodd yr holl Aelodau a oedd yn bresennol yn y cyfarfod am nodi eu bod wedi pleidleisio o blaid y Rhybudd o Gynnig Gwreiddiol, fodd bynnag, fel y cyfeiriwyd ato yng Nghofnod 136, ymataliodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R. Smith rhag pleidleisio ar yr eitem yma.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.15 pm

**Cllr S Powderhill
Cadeirydd.**